Y pwll cloddio

Trosolwg

Mae'r plant yn troi'n archwilwyr tanddaearol wrth iddynt gloddio, sblasio a darganfod beth sy'n byw dan ein traed. Mae'r gweithgaredd hwn yn hybu chwilfrydedd, gofal am fyd natur, a llawer o chwarae anniben a llawen.



Gweithgareddau

Crëwch bwll cloddio bach (1m x 1m) drwy godi haenen o dywarchen, neu defnyddiwch deiar neu wely plannu uwch sy'n llawn pridd. Mae'r plant yn cloddio, yn sgwpio ac yn sblasio gan ddefnyddio brigau ac ychydig o ddŵr i greu mwd slwtshlyd, ac mae oedolion yn ymuno yn yr hwyl. Wrth i hyder y plant dyfu, cyflwynwch dryweli a ffyrc gyda rheolau syml ynghylch diogelwch. Anogwch y plant i edrych yn ofalus a dod o hyd i drychfilod bach iawn sy'n cuddio dan y ddaear, ac i sgwrsio â'i gilydd am yr hyn y maent yn dod o hyd iddo.

Offer

- Pwll cloddio wedi'i greu drwy godi haenen o dywarchen, neu deiar/gwely plannu uwch
- Pridd
- Brigau
- Caniau dyfrhau
- Tryweli

Cwestiynau allweddol

Beth fydd yn digwydd os byddwn yn ychwanegu ychydig o ddŵr?
Beth byddwn yn dod o hyd iddo o gloddio ychydig yn ddyfnach?
Beth sy'n cuddio dan y ddaear?
Sut mae'r mwd yn teimlo ar fy nghroen?

Deilliannau dysgu

Meithrin chwilfrydedd am fyd natur a phethau byw
Datblygu cryfder, cydsymud a rheolaeth drwy gloddio a defnyddio offer
Annog y plant i siarad, cwestiynu a darganfod ar y cyd

Symud y dysgu yn ei flaen

Wrth i hyder y plant dyfu, bydd y plant yn cloddio'n fwy annibynnol ac yn defnyddio offer gyda rheolaeth gynyddol. Byddant yn mynd yn chwilfrydig am yr hyn y maent yn dod o hyd iddo, yn gwylio pryfed, yn gofyn cwestiynau ac yn siarad am bridd, planhigion a chynefinoedd. Gallai'r plant ymestyn eu chwarae drwy gymysgu eu mwd eu hunain, plannu hadau a darganfod sut y mae mwd yn helpu bwyd a phlanhigion i dyfu.